# Cynnig i Newid:
# Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy

Dogfen Ymgynghori

I Blant a Phobl Ifanc



WCBC/ER907/10022025

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

# Pwy ydym ni?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol am bob ysgol yn ein hardal. Rydym ni'n rhan o dîm sy'n gweithio i'r Cyngor i gefnogi'r ysgolion hyn.


# Ein nodau

Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn ddysgu mewn ysgolion Cymraeg, ysgolion Saesneg neu ysgolion Ffydd ardderchog.

- Bod ag adeiladau diogel a chryf.
- Gwneud yn siŵr fod arian ar gyfer plant yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi cyfle i bawb leisio eu barn a gwrando ar safbwyntiau pawb am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

# Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd mae 3 ysgol wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy. Yr ysgolion yw Ysgol y Garth, Pentre a Froncysyllte. Yn Ysgol Froncysyllte mae llai na 10 disgybl a bydd y nifer hwn yn parhau i ostwng.



## Beth yw ein syniad ni?

Edrychon ni ar 3 syniad.

1. Gwneud dim a chael ysgol fach iawn gyda llai na 5 disgybl.
2. Cau Ysgol Froncysyllte
3. Cau'r 3 ysgol yn y ffederasiwn ac agor 1 ysgol sengl.

Yr opsiwn rydyn ni'n meddwl efallai yw'r opsiwn gwell yw cau Ysgol Froncysyllte (Opsiwn 2). Dydy Opsiwn 3 ddim yn bosibl oherwydd nad oes lle i adeiladu ysgol newydd gerllaw.

## Beth allai newid?

Mae angen i ni wneud yn siŵr bod ysgolion yn darparu'r addysg orau i blant a phobl ifanc ac rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod ysgolion y gorau y gallan nhw fod.

Weithiau mae angen i ysgolion newid er mwyn i hyn ddigwydd. Rydyn ni'n gwybod y gall hwn fod yn amser pryderus ac rydyn ni eisiau clywed beth sydd gennych i'w ddweud.

Efallai y bydd yn rhaid i rai plant fynd i ysgol newydd.

Efallai y bydd yn rhaid i rai plant deithio ymhellach i'r ysgol.

Efallai y bydd angen gwisg ysgol newydd ar rai plant.

## Newidiadau ysgol

Does neb yn hoffi newidiadau mawr i ysgol.

Rydyn ni'n deall y gall hwn fod yn gyfnod anodd i'r disgyblion sy'n gweithio yn yr ysgol a'r gymuned leol.

## Pam rydym ni'n gofyn am dy farn?


Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn neu'r CCUHP, yn rhestr o hawliau sydd gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru a ledled y byd.

Mae Erthygl 12 yn gwneud yn siŵr bod gan bobl ifanc yr hawl i ddweud beth maen nhw'n ei feddwl.

Rydyn ni eisiau gwrando ar beth sydd gennych i'w ddweud. Rydyn ni'n cymryd sylwadau pawb ac yn rhoi'r cyfan at ei gilydd i ddweud wrth y Cynghorwyr sy'n gwneud penderfyniadau beth wnaethoch chi ddweud.



# Pa mor hir fydd pethau'n cymryd?



**Pobl yn dweud wrthym beth maen nhw'n ei feddwl:**

Medi tan fis Tachwedd 2025

**Cytuno ar beth fydd yn digwydd:**

Mehefin 2026

**Gwneud unrhyw newid i Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy:**

Medi 2026


# Eisiau gwybod mwy?

Rydym ni wedi gwneud hwn yn fyr ac mewn ffordd y byddi di'n ei deall, gobeithio. Rydym ni wedi anfon dogfen hirach at dy rieni, dy athrawon ac at bobl eraill.

Mae'r dogfennau hirach i'w gweld ar ein gwefan drwy chwilio am 'Ymgynghoriadau Trefniadaeth Ysgolion' ar wrecsam.gov.uk neu drwy sganio'r cod QR.


# Beth ydi eich barn chi?

Dyweda wrthym ni **os wyt ti'n deall** beth yw ein syniad drwy roi tic ar un o'r wynebau isod.



Dw i'n
deall

☐



Dydw i ddim yn siŵr
os ydw i'n deall


☐



Dydw i ddim
yn deall


☐

Dyweda wrthym ni **sut wyt ti'n teimlo** am ein syniad drwy roi tic ar un o'r wynebau isod.




Dw i'n
ei hoffi

☐



Dydw i ddim yn gwybod
os ydw i'n ei hoffi

☐



Dydw i ddim
yn ei hoffi

☐

# Oes yna unrhyw beth arall yr hoffet ti ei ddweud?

Cofiwch ddweud wrthym...

- Oes unrhyw beth arall yr hoffech ei weld yn digwydd yn lle beth rydyn ni'n ei gynllunio?
- Oes gennych chi unrhyw beth arall yr hoffech ei rannu?

Anfonwch eich sylwadau atom erbyn **Dydd Gwener 7 Tachwedd 2025**

Fyddwn ni ddim yn gallu derbyn unrhyw beth rydych chi'n ei anfon atom ar ôl y dyddiad hwn.

## Ebost

Anfonwch eich sylwadau atom drwy e-bostio:
deevalleyconsultation@wrexham.gov.uk

## Arolwg ar-lein

Cwblhewch yr arolwg ar-lein yn www.wrexham.gov.uk neu sganio'r cod QR.

## Ysgrifennu atom ni

Anfonwch eich sylwadau atom drwy ysgrifennu i

Ymgynghoriad Dyffryn Dyfrdwy, Addysg,
Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8BG

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

**Byddwn yn casglu'r holl ymatebion ac yn dweud wrth bawb beth yw'r prif sylwadau**

Ionawr 2026

**Bydd y Cyngor yn cael cyfarfod i benderfynu beth i'w wneud**

Mehefin 2026

**Byddwn yn rhoi gwybod i bawb beth yw'r penderfyniad**

Mehefin neu Orffennaf 2026

